

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Dwynwen – Nawddsantes Cariadon**

Enw'r Awdur: **Cartwright, J.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol):

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu

gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -

teitl/Cyfrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol): **Barn 371/2 (1993-1994)**

Cyhoeddwr: **Barn**

Tudalennau a sganiwyd: **101 - 103**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Santesau Cymru CYCS7007C**

Enw'r sawl a awdurdododd

y sganio:

E.L. Harris

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 16.03.17.

Moodle/Powerpoint

DWYNWEN – NAWDDSANTES CARIADON

Jane Cartwright

Daeth dathlu Dydd Dwynwen yn beth eithaf poblogaidd ymhlith y Cymry ifainc bellach, ond digon prin yw'r defnyddiau ar gyfer trafod cefndir yr ŵyl yn y dosbarth. Yn yr erthygl hon mae Jane Cartwright, sy'n fyfyrwraig ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd, yn egluro pwy oedd Dwynwen a pham y cysylltir ei henw â gŵyl y cariadon.

Ionawr 25 yw Dydd Gŵyl Ddwynwen – nawddsantes cariadon. Tybed faint o Gymry fydd yn dathlu'r ŵyl eleni wrth anfon cardiau di-enw at eu cariadon? Cafwyd ymgais yn ddiweddar i hybu Gŵyl Ddwynwen a'i gwneud yn debyg i ŵyl fasnachol Sant Ffolant. Cymeriad annelwig yw Sant Ffolant: efallai mai Esgob Terni ydoedd neu offeiriad o Rufain a ferthyrwyd yn y drydedd ganrif O.C. Nid yw'r cysylltiad rhwng Sant Ffolant a chariadon yn un arbennig o ramantaidd. Credid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg fod adar yn dod o hyd i bartner ar Chwefror 14 (Dydd Gŵyl y saint) ac felly dechreuwyd cysylltu Ffolant â'r arferiad o chwilio am gymar. Ond beth yw cysylltiadau Santes Dwynwen â chariadon, ac i ba gyfnod y perthyn y traddodiadau hyn?

Os oedd Dwynwen yn ferch o gig a gwaed buasai wedi byw yng nghyfnod Oes y Saint (4g.-8g.). Y mae'n bosibl ei bod wedi trigo mewn cell meudwy ar Ynys Llanddwyn, Sir Fôn, rywbryd yn y bumed neu'r chweched ganrif. Wrth reswm, y mae tystiolaeth uniongyrchol am y cyfnod cynnar hwn yn hanes yr Eglwys yn brin. Ceir cofebau a chroesau o garreg sy'n dyst i weithgarwch Cristnogol cynnar ac adlewyrchir enwau'r saint yng Nghymru mewn enwau lleoedd megis Llandeilo, Llanddewi, Llansantffraid. Pren oedd defnydd crai yr eglwysi cynnar – defnydd a bydrai'n hawdd. Ni ddechreuwyd defnyddio cerrig i adeiladu eglwysi yng Nghymru tan yr unfed ganrif ar ddeg. Perthyn adfeilion yr eglwys bresennol ar Ynys Llanddwyn i ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, a chodwyd croes ar yr ynys ym 1903.

Er bod diffyg tystiolaeth ynglŷn â chefnidir hanesyddol y saint, y mae eu dylanwad ar y meddylfryd canoloesol yn hollol sicr. Chwaraeent ran flaenllaw ym mywyd beunyddiol y Cymry. Fel y dywed J. E. Caerwyn Williams.

Anodd i ni erbyn heddiw ydyw dychmygu'r lle a gymerai'r Saint ym mywyd y bobl. Nid gormod

dywedyd bod y Saint, yn ôl syniadaeth a chredo'r bobl, megis angylion, a phrin y gellid meddwl am na helynt na thrafferth na llafur, na ellid mewn rhyw fodd alw cymorth y Saint ato a hynny'n bur effeithiol.

Cyfeirir at y saint yn aml yng ngwaith y beirdd, yn enwedig yng ngwaith y Cywyddwyr. Hefyd, cofnodwyd nifer o hanesion am fywyd y saint a'u gwyrthiau ym mucheddau'r saint (h.y. bywgraffiad ar ffurf rhyddiaith). Lladin oedd iaith wreiddiol y bucheddau hyn, ond cyfieithwyd nifer ohonynt i'r Gymraeg yn y cyfnod canol. Yn ôl pob tebyg, darllenid y bucheddau hyn ar ŵyl y saint(es).

Yn anffodus, nid oes gennym fuchedd i Santes Dwynwen. Serch hynny, ychwanegwyd at Lyfr Offeren Bangor (1494) dair gweddi arbennig iddi. Yn y gweddïau Lladin hyn honnir bod Santes Dwynwen wedi dod i Gymru o Iwerddon a'i bod wedi cerdded dros y môr. Y mae'n bosibl y credid bod Santes Dwynwen (fel Santes Melangell a San Ffraid) wedi treulio cyfnod yn Iwerddon cyn dod i Gymru. Yn wir, yr oedd ei thad, Brychan Brycheiniog, o dras Wyddelig. Yn ôl traddodiad, teithiodd



Adfeilion eglwys Dwynwen ar Ynys Llanddwyn

San Ffraid yn wyrthiol dros Fôr Iwerydd ar ddarn o dywarchen. Pwysleisir sancteiddrwydd Dwynwen wrth iddi hithau, fel yr Iesu, gerdded dros y môr. Yn aml, y mae gweithredoedd y saint yn ddrych i wyrthiau'r Iesu. Sonia'r gweddïau am wrthdaro rhwng Maelgwn Gwynedd a'r santes, ond nid yw'n eglur beth oedd achos y gynnen rhyngddynt. Fel y gellir disgwyl, gorchfygir y gormeswr Maelgwn gan bŵer sanctaidd.

Yn ôl yr hanes a adroddir gan lolo Morganwg (1747-1826) yr oedd Dwynwen mewn cariad â Maelon Dafodrill. Fe'i ceryddwyd gan Maelon, oherwydd iddi ddymuno aros yn forwyn lân. Rhoddodd Duw ddiod felys iddi er mwyn gwella'r boen a achoswyd gan ei chariad a pharodd i Faelon droi yn dalpyn o iâ. Wedyn, rhoddodd Duw dri dymuniad i Ddwynwen. Dymunodd hithau (i) ar i Dduw ddadmer Maelon (ii) gael gwrando ar weddïau cariadon er mwyn cael dod â chariadon at ei gilydd neu wella'r clwyfau a achosir gan serch diwobrwy (*unrequited love*) (iii) aros yn ddibriad am weddill ei hoes.

Yn ei gywydd 'Galw ar Ddwynwen' dymuna Dafydd ap Gwilym anfon y santes yn llatai, sef negesydd-serch, at ei gariad Morfudd. Dywed ei fod yn dioddef o glefyd serch a honna fod ei fywyd yn ddiwerth heb ei gariad.

Y fron hon o hoed gordderch
Y sydd yn unchwydd o serch;
... hwn yw haint,
Oni chaf, o byddaf byw,
Forfudd, llyna oferfyw.
Gwna fi'n iach, weddusach wawd,
O'm anwychder a'm nychdawd.

Nid yw'r bardd yn awyddus i Ddwynwen gael gwared ar ei deimladau trachwantus. Yn hytrach, erfyna yn ddireidus am ei chymorth i'w diwallu. Y mae'n barod i fanteisio ar sancteiddrwydd y santes ddiwair er mwyn hyrwyddo perthynas odinebus. Yr oedd Morfudd, wrth gwrs, yn wraig briod.

Dwynwen, pes parud unwaith
Dan wŷdd Mai a hirddydd maith,
Dawn ei bardd, da, wen, y bych;
Dwynwen, nid oeddud anwych.
Dangos o'th radau dawngoeth
Nad wyd fursen, Ddwynwen ddoeth.

Ni cheir sôn am Faelon Dafodrill yn y cywydd. Yn hytrach nag eiriol ar y santes yn enw'i chariad, y mae Dafydd ap Gwilym yn eiriol arni yn enw'i thad, Brychan. Yn ôl *Trioedd Ynys Prydein* yr oedd plant Brychan Brycheiniog yn 'un or Tair Gwelygordd Saint Ynys Brydain'. Priododd Brychan deirgwaith, a saint oedd y rhan fwyaf o'i blant. Tybed a oedd Dafydd ap Gwilym yn disgwyl i un a gafodd bedwar

plentyn ar ddeg ar hugain ymuniaethau â'i reddfau corfforol ef?

Cysylltir Santes Dwynwen eto â chariad anfoesol yng nghywydd dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn (c.1395-c.1486). Dywed nad yw Dwynwen yn rhwystro godineb a chyfeiria at yr arferiad o bererindota i Ynys Llanddwyn er mwyn datrys problemau serch.

Dwynwen ni ludd odineb,
Diwair iawn, dioer i neb;
Aeth i Landdwyn at Ddwynwen
Lawer gŵr o alar Gwen.

"Yn baradocsaidd, felly, cysylltid Santes Dwynwen, ar y naill law, â diweirdeb sanctaidd ac, ar y llaw arall, â chariad bydol."

Yn baradocsaidd, felly, cysylltid Santes Dwynwen, ar y naill law, â diweirdeb sanctaidd ac, ar y llaw arall, â chariad bydol. Tra'r oedd y santes ei hunan yn forwyn ddilychwin a gysegrodd ei gwryfyddod i Grist, yr oedd hefyd yn hyrwyddo cariad cnawdol. Fodd bynnag, gellir honni nad yw hyn yn hollol annisgwyl. Prif rinwedd sancteiddrwydd benywaidd oedd purdeb corfforol. Ceisiai'r santesau eu gorau glas i amddiffyn eu gwryfyddod ac osgoi'r dyletswyddau a ddisgwylid gan ferched yn y gymdeithas seciwlar. O ganlyniad, y mae cariad cnawdol a phriodi yn themâu amlwg ym mucheddau'r santesau. Dihangodd Gwenfrewi rhag crafangau Caradog, ond torrodd Caradog ei phen ymaith â'i gleddyf, oherwydd iddi ymrwrthod ag ef. Ffodd Melangell i Gymru er mwyn osgoi priodas a drefnwyd gan ei thad yn Iwerddon. Gweddïodd San Ffraid ar i Dduw gefnogi'i phenderfyniad i aros yn ddibriad. Neidiodd un o'i llygaidd o'i phen yn wyrthiol pan geisiodd ei thad drefnu priodas iddi. Ar ôl cael addewid gan ei thad na fyddai'n rhaid iddi briodi, gwellhaodd ei llygad. Ceir yr hanes yn un o gywyddau lorwerth Fynglwyd (fl. 1485-1527):

Y dydd, y ceisiodd dy dad
wra yt, a'i roi atad,
un o'th lygaidd a neidiawdd
o'th ben, hyn a'th boenai'n hawdd;
a thrannoeth aeth yr wyneb
oll yn iach, ni bu well neb.

Rhaid oedd i'r santes (a'r lleian) osgoi uniad rhywiol â phriodfab bydol er mwyn ennill uniad ysbrydol â'i phriodfab tragwyddol yn y nef (h.y. Crist). Eto i gyd, nid oedd hynny'n rhwystr i'r ferch gyffredin ymuniaethu â'r santes. Un o'r santesau estron a oedd yn boblogaidd yng Nghymru oedd Margred o Antioch. Cyfieithwyd buchedd Margred

i Gymraeg Canol. Nawddsantes gwragedd beichiog oedd Margred ac arferai gwragedd apelio ati i leddfu eu gwewyr esgor er mai morwyn oedd Margred. Nid yw'n hollol annisgwyl felly mai morwyn ddiwair oedd nawddsantes cariadon Cymru. Cynigiai Dwynwen gymorth i'r ddau ryw a heidiai pererinion i'w ffynnon ar Ynys Llanddwyn i wybod a gaent eu cariadon ai peidio. Ymddengys y gellid dehongli symudiadau llyswennod a drigai yn nŵr y ffynnon er mwyn proffwydo ynglŷn â materion serch.

Dolur a achosir gan fath arall o gariad sy'n gwneud i Lewis Glyn Cothi alw ar Ddwynwen – cariad tad tuag at fab a fu farw'n ifanc (gweler erthygl Dr Dafydd Johnston yn y rhifyn hwn – Gol.):

Un mab oedd degan i mi;
Dwynwen! Gwae'i dad o'i eni!
Gwae a edid, o gudab,
I boeni mwy heb un mab!
Fy nwy ais, farw fy nisyn,
Y sy'n glaf am Siôn y Glyn.

Ar achlysuron emosiynol dwys trôir Cymry at y saint am gymorth.

Rheswm arall dros apêl Dwynwen oedd y gred y gallai ffynnon y santes iacháu clefydau corfforol. Mewn cyfnod pan oedd cryn elfen o ofergoeledd yn perthyn i feddyginiaeth yr oedd ffynhonnau iachael yn hynod o boblogaidd. Ni chyfyngwyd eu poblogrwydd i'r cyfnod canol chwaith. Er enghraifft, tan yn ddiweddar iawn cyrchai cleifion at ffynnon Gwenfrewi, Treffynnon, gan obeithio derbyn iachad. Mae'n siwr bod ffydd y pererinion a dŵr ffres y ffynnon wedi gwneud lles iddynt, ond sonia'r beirdd am wyrthiau sydd yn peri i feddygaeth fodern ymddangos yn ddiffygiol dros ben! Cyfeiria Lewis Glyn Cothi a Dafydd ap Gwilym at ddawn Dwynwen i iacháu cleifion, ond cywydd Syr Dafydd Trefor (15g.) sy'n disgrifio'n fanwl ac yn fywiog beth a ddigwyddai wrth ffynnon Ddwynwen. Rhydd y cywydd argraff o brysurddeb a chyffro wrth i'r tyrfaoedd ymgasglu wrth y ffynnon. Cynigir canhwylau, arian a botymau i ddelw'r santes tra bo'r anabl a'r claf yn cael eu gwella'n wyrthiol wrth ymdrochi yn y ffynnon. Yn ddiamau, deuai pererindodau fel hyn â chyllid sylweddol i'r eglwys ar Ynys Llanddwyn.

Ni ofalai Dwynwen am y corff a'r galon yn unig. Gellid ymgynghori â'r santes ynglŷn â dyfodol yr enaid hefyd. Erfyna Dafydd Trefor arni'n ddiffuant i ennill iachawdwriaeth i ni yn y nef:

Awn i ynnill ynn vnion
nef o law merch lana y Môn
Awn atti ar yn glinief
awn dan nawdd Dwynwen i nef.

Wrth i Ddwynwen gyfryngu rhwng y nef a'r ddaear, gan bledio achos pechaduriaid, chwery ran draddodiadol y Forwyn Fair. Gwelir yma berthynas hynaws y santes drugarog â'r bobl gyffredin: haws oedd cyrraedd santes leol a drigai unwaith yng Nghymru nag oedd anelu'n syth at y nef.



O blith holl saint Cymru, Dewi Sant yn unig mae'n debyg, a gafodd ei gydnabod a'i ganoneiddio'n swyddogol gan yr Eglwys Babyddol. Beth bynnag, nid amharodd hynny ar barch y Cymry tuag at eu saint brodorol. Rhaid oedd i'r saint ymateb i anghenion y bobl leyg yn ogystal ag i uchelgais gwleidyddol yr esgobaethau. Yn yr Oesoedd Canol sicrhawyd poblogrwydd i'r saint hynny a gynigiai wasanaeth defnyddiol i'r bobl. Nid yw'n syndod, felly, i nawddsantes cariadon fod yn gadarn ei hapêl, gan fod cariad yn broblem ac yn bleser oesol.

Hoffwn ddiolch i'r Dr Sioned Davies am ei holl gefnogaeth ac i Mr Christopher Forster Brown am ei gyfieithiad o'r gweddïau Lladin.

Llyfryddiaeth

- S. Baring-Gould a J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (Llundain; 1907-13) Cyfrol II, tt.387-392.
R. Bromwich (gol.), *Trioedd Ynys Prydein* (Caerdydd; 1961).
E. R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Caergrawnt; 1987), tt. 227-232.
D. Huws, 'The Earliest Bangor Missal', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru XXVII* (1991), tt. 113-128.
H. Owen 'Llanddwyn Island', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1920), tt. 1-32 [sy'n cynnwys cywydd Syr Dafydd Trefor].
T. Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd; 1952), tt. 256-257 [Ceir cyfieithiad Saesneg o'r gerdd gan R. Bromwich yn *Selected Poems of Dafydd ap Gwilym* (Harmondsworth; 1985)].
T. Parry (gol.), *Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg* (Rhydychen; 1962), Rhif 88, 'Marwnad Siôn y Glyn'.
W. L. Richards (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd; 1964), t. 14.
J. E. Caerwyn Williams 'Buceddau'r Saint', *BBCS XI* (1944), tt. 149-57.

**Anfoner syniadau a
chyfraniadau at y Golygydd:**

**Dr Christine James
16 Ffordd Kelston
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd, CF4 2AJ**

**Rhif ffôn:
(0222) 628754**